

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 10 Chwefror 2021

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 16 CHWFROR 2021** am **10.00** am **TRWY CYFRWNG FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYG

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 18)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd 19 Ionawr 2021 (copi ynghlwm).

5 STRATEGAETH AR NEWID HINSAWDD A NEWID ECOLEGOL CYNGOR SIR DDINBYCH (2021 - 2029) (Tudalennau 19 - 88)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Cyngorwyr Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd a Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (copi ynghlwm) yn cyflwyno'r ddogfen strategaeth derfynol i'r Cabinet ei ystyried, ac argymhell i'r Cyngor ei mabwysiadu.

6 ADOLYGU'R POLISI ENWI A RHIFO STRYDOEDD (Tudalennau 89 - 114)

Ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Richard Mainon, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer newidiadau arfaethedig i Bolisi Enwi a Rhifo Strydoedd y Cyngor.

7 RHAGLEN TRAWSNEWID TREFI LLYWODRAETH CYMRU (Tudalennau 115 - 138)

Ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddirprwyo awdurdod ar gyfer dibenion sicrhau buddsoddiad adfywio yn Sir Ddinbych o Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.

8 ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL (Tudalennau 139 - 146)

Ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet ar gyfer prosiectau a nodwyd ar gyfer eu cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2021/22.

9 ADRODDIAD CYLLID (Tudalennau 147 - 164)

Ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL (Tudalennau 165 - 168)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol amgaeedig y Cabinet a nodi'r cynnwys.

RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL

Dim eitemau.

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

**Hugh Evans
Bobby Feeley
Huw Hilditch-Roberts
Richard Mainon**

**Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Brian Jones
Mark Young**

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned